**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/8/2023

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

**BIL YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU)**

Diolch i chi a'r Pwyllgor am eich adroddiad manwl ac ystyriol ar y Bil, yr oeddwn yn falch o'i derbyn ychydig cyn y Nadolig. Byddaf yn ymateb yn llawnach yn y ddadl sydd i fod i gael ei chynnal ar 17 Ionawr.

Mae argymhelliad 10 yn adroddiad y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad, cyn y ddadl, ar faterion sy'n ymwneud ag adran 2(3) o'r Bil. Hyderaf fod y llythyr hwn yn darparu'r wybodaeth y mae'r Pwyllgor yn ei geisio.

Mae adran 2 o'r Bil yn nodi ystyr "heneb" a "safle heneb"; mae isadran (3) yn dileu ystyried fel heneb unrhyw adeilad crefyddol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd at ddibenion crefyddol.

Barn y Llywodraeth yw y byddai adran 2(3) o'r Bil yn dal i gydymffurfio â hawliau dynol heb y pŵer newydd i wneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd o'r farn fod bodolaeth y pŵer yn cryfhau cydymffurfiaeth adran 2(3).

O ran a yw'r pŵer i wneud rheoliadau yn newid bach, rydym yn cytuno â datganiad y Pwyllgor ym mharagraff 317 o'i adroddiad nad yw'r ddarpariaeth wedi'i chyfyngu i ddarparu eglurder. Ond rydym yn credu ei fod yn newid bach at ddibenion Rheol Sefydlog 26C. Gobeithio bod cynnig eglurhad pellach o'r rhesymeg y tu ôl i gynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn ddefnyddiol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'n fater syml. Mae'n ymwneud â llunio barn anodd am sut i ailddatgan y sefyllfa gyfreithiol bresennol yn gywir mewn ffordd mor hygyrch â phosibl.

Mae ein penderfyniad i osgoi efelychu ystyr ansicr presennol "eglwysig" yn adran 2 o'r Bil yn cyflwyno mater gwahanol y credwn fod angen mynd i'r afael ag ef wrth ddrafftio. Mae effaith geiriau agoriadol adran 61(8) o Ddeddf 1979 yn ansicr am y rhesymau a nodir yn fy llythyr ar 17 Hydref 2022. Mae'n fynegiant y mae modd ei ddehongli mewn mwy nag un ffordd, yn enwedig oherwydd effaith deddfwriaeth hawliau dynol.

Nid oes modd dehongli geiriad y ddarpariaeth sydd wedi'i ailddatgan yn y Bil mewn mwy nag un ffordd yn yr un modd: mynegwyd y rheol gyffredinol yn Adran 2(3) i fod yn berthnasol i grefyddau yn gyffredinol, dull sydd wedi'i seilio ar ein safbwynt cychwynnol, y dylai pob crefydd gael ei thrin yn yr un modd. Ond gallai dull sy'n seiliedig ar yr egwyddor gyffredinol honno yn unig gael effeithiau andwyol a gwahaniaethol yn ymarferol, yn dibynnu ar amgylchiadau achos penodol. Rydym felly wedi mabwysiadu'r farn bod hyblygrwydd yn briodol er mwyn caniatáu i Weinidogion addasu gweithrediad y rheol gyffredinol.

Mae angen i ni gydnabod hefyd ei bod yn bosibl y gallai cyfraith achosion yn y dyfodol sy'n effeithio ar ddehongli Siarter Hawliau Dynol Ewrop olygu'r angen am newid ymagwedd at adeiladau crefyddol mewn amgylchiadau penodol.

Wrth gwrs, byddai cyfyngiadau cyfreithiol hefyd ar arfer y pŵer hwnnw, er enghraifft, ni fyddai'n caniatáu i reoliadau danseilio'r rheol gyffredinol yn adran 2(3) o'r Bil a'i hamddifadu o unrhyw ystyr; hefyd, wrth gwrs, byddai'n rhaid i unrhyw reoliadau gydymffurfio â Siarter Hawliau Dynol Ewrop. Byddai unrhyw reoliadau a fyddai'n cael eu llunio o dan yr adran honno yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac, yn unol â'n harfer sydd wedi hen ennill ei blwyf, byddai unrhyw newid mewn polisi yn destun ymgynghoriad priodol.

Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn mai mân newid i'r gyfraith yw cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 2(3) o'r Bil.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution